***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3241

## Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Ffioedd) (Cymru) 2004

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Ffioedd) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i gŵynion a wneir, mewn perthynas â gwrychoedd neu berthi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru(**1**), o dan adran 68 o'r Ddeddf i awdurdod perthnasol(**2**) ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

(**1**) *Gweler* adran 66 o'r Ddeddf ar gyfer ystyr “high hedge”.

(**2**) Mae adran 65(5) o'r Ddeddf yn diffinio'r “relevant authority” fel yr awdurdod lleol y mae'r tir y mae'r gwrych neu'r berth uchel wedi'u lleoli arno yn ei ardal. Mae adran 82 o'r Ddeddf yn diffinio “local authority”, mewn perthynas â Chymru, fel y sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol.